

**Y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care
Committee**

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

Seneddlechyd@senedd.cymru

senedd.cymru/Seneddlechyd

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddHealth@senedd.wales

senedd.wales/SeneddHealth

0300 200 6565

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

John Griffiths AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

06 Mehefin 2022


Annwyl Jayne, Jenny a John

Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl.

Yn dilyn fy [llythyr dyddiedig 5 Ebrill 2022](#), rwy'n ysgrifennu atoch i roi diweddariad pellach ar [ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl](#).

Er gwybodaeth i chi, amgaeaf yn gyfrinachol gopiau o bapurau briffio Ymchwil y Senedd a baratowyd ar gyfer ein sesiynau tystiolaeth lafar diweddar ar 4 Mai, 19 Mai a 8 Mehefin. Bydd copiau o bapurau briffio pellach yn cael eu rhannu maes o law.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl: diweddariad

Cefndir

Lansiodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl ym mis Ionawr 2022. Roedd y cylch gorchwyl yn eang iawn, yn ceisio nodi pa grwpiau oedd fwyaf tebygol o brofi anghydraddoldebau iechyd meddwl, pa rwystrau y maent yn eu hwynebu, a yw polisi Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i gydnabod anghenion y grwpiau hyn a mynd i'r afael â hwy, a beth arall sydd angen ei wneud. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gawsom yn **ysgrifenedig** drwy **grwpiau ffocws** ac yn ystod y **sesiynau tystiolaeth lafar** cychwynnol, ym mis Mawrth 2022 penderfynwyd canolbwyntio ar bedair thema sy'n dod i'r amlwg (gweler isod).

Casglu tystiolaeth pellach

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r themâu sy'n dod i'r amlwg, ac yn crynhoi sut y byddwn yn casglu tystiolaeth ychwanegol i ategu ein sylfaen dystiolaeth gychwynnol, tra'n sicrhau ein bod yn clywed gan bobl sydd ag arbenigedd proffesiynol a phrofiad bywyd o'r materion rydym yn eu hystyried.

Thema	Casglu tystiolaeth
Iechyd meddwl a chymdeithas	<u>Tystiolaeth lafar ar 4 Mai 2022</u> gan: Y Ganolfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Chymdeithas ym Mhrifysgol Bangor; Platfform; a Seicolegwyr dros Newid Cymdeithasol.
Atebion cymunedol	<u>Tystiolaeth lafar ar 19 Mai 2022</u> gan: Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Leonard Cheshire; Mind Cymru; a'r Athro Syr Sam Everington, arloeswr ym maes rhagnodi cymdeithasol. Ymweliad Pwyllgor (manylion i'w cadarnhau)
Effaith anghydraddoldebau iechyd meddwl ar bobl sydd â chyflyrau niwroamrywiol	Digwyddiad preifat anffurfiol i randdeiliaid ar brofiadau pobl â chyflyrau niwroamrywiol a'u teuluoedd neu ofalwyr o anghydraddoldebau iechyd meddwl. Tystiolaeth lafar ar 8 Mehefin 2022 gan: Yr Athro Amanda Kirby, Cadeirydd y Sefydliad ADHD; a'r Athro Anita Thapar, Is-adran Meddygaeth Seicolegol a Niwrowyddorau Clinigol, Prifysgol Caerdydd.
Rôl y gweithlu gofal iechyd a'r gweithlu ehangach	Tystiolaeth lafar ar 6 Gorffennaf 2022 gan: Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu; Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru; Coleg Brenhinol y Seiciatryddion; Cymdeithas Seicolegol Prydain (i'w gadarnhau); a Chymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain. Ymgysylltu anffurfiol â'r gweithlu (manylion i'w cadarnhau).



Bydd yr holl dystiolaeth y byddwn yn ei chasglu yn ystod yr ymchwiliad, gan gynnwys y diweddariad ysgrifenedig y byddwn yn gwneud cais ar ei gyfer ar y cyd â'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y cynnydd a wnaed ar argymhellion allweddol gan bwyllgorau'r Bumed Senedd mewn perthynas ag iechyd meddwl, yn llywio sesiwn dystiolaeth lafar gyda Llywodraeth Cymru a gynhelir yn nhymor yr hydref.

Materion eraill

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, rydym yn gweithio gyda sefydliadau partner i sefydlu grŵp cynghori ar-lein. Gofynnir i'r grŵp roi ei farn ar faterion sy'n dod i'r amlwg ar adegau penodol ac allweddol yn ystod yr ymchwiliad.

Gan fod Senedd leuenctid Cymru wedi nodi 'Ein hiechyd meddwl a lles' fel un o'i blaenoriaethau, rydym hefyd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i weithio gydag Aelodau Senedd leuenctid Cymru wrth iddynt ddatblygu eu dull gwaith.